
Rota:

| | | |
|---|---|---|
| Agor a Croesawu - | Bore - Steffan,<br>Nos - Mae angen enwau | |
| Paned - Gwenan a Heledd | | |
| Stori Plant: | 2 | - Steffan |
| | 9 | - Steffan |
| | 16 | - Euryn |
| | 23 | - Gwydion |
| | 30 | - Ieuan |
| Ysgol Sul: | 2 | - Elin |
| | 9 | - Sylvia |
| | 16 | - Delyth |
| | 23 | - |
| | 30 | - |
| Cyfeilio: | | |

Edrychwch ar daflen y mis ar y wefan - www.capelyffynnon.org
Cofiwch am flog y gweinidog - thelandofuz.blogspot.com



Capel y Ffynnon
Penrallt Isaf
Bangor
Rhif Ffon 01248 361117
E-bost dafyddmj@gmail.com
Safle wê - capelyffynnon.org

**E**styn allan yn
**E**ffeithiol i'r
Gymuned gyda
neges **B**erthnasol

# Capel y Ffynnon

## Taflen y Mis, Ionawr, 2011



Y mae diwedd pob peth ar ein gwarthaf. Am hynny, ymbwyllwch ac ymddisgyblwch i weddïo. O flaen pob peth, cadwch eich cariad at eich gilydd yn llawn angerdd, oherwydd y mae cariad yn dileu lliaws o bechodau.

1 Pedr 4: 7-8

# Cyfarfodydd Ionawr

## Suliau (10 a 6)

2 - Hywel Meredydd
9 - Dafydd Jones
16 - Dafydd Job (Cymun Nos)
23 - Dafydd Job
30 - Dafydd Job

## Cyfarfodydd Wythnosol

**Dydd Llun (yn y Capel)**

**Ribidires** (9.30)

**Dydd Mawrth (yn y Capel)**

**Cyfarfod gweddi** (12.30)

**Dydd Iau (7.30 yn y Capel)**

6 **Cyfarfod gweddi**
13 **Cwrdd gweddi**
20 **Cyfarfod gweddi cenhadol**
26 a 27 **Cyfarfodydd Cartref**

**Cyfarfod Merched**
Bore Sadwrn 15 - Tŷ Dafydd a Gwenan

**Cyfarfod Dynion**
Nos Fawrth 25 (8.00) - Tŷ Steffan a Debs

**Bore coffi dysgwyr**
Bore Sadwrn 29 (10.00) - Capel

**Pwyntiau Gweddi:**



Diolchwch am fendithion y llynedd, a'n bod yn cael cyfle newydd i wasanaethu Duw eleni.

Ar ddechrau blwyddyn newydd mae'n dda ein bod yn gofyn i Dduw ein helpu yn ystod y flwyddyn i dyfu fel Cristnogion ac fel Eglwys. Fel Cristnogion mae'n hawdd bodloni ar brysurdeb, heb gofio ein bod i dyfu yn fwy tebyg i Grist. Fel Eglwys mae'n hawdd gwneud dim mwy na threfnu cyfarfodydd.Ond mae angen i ni fod yn gymdeithas sy'n goleuo ein byd oddi amgylch.

Cofiwch hefyd am y Siop Lyfrau. Ymhen dau fis bydd yn dibynnu yn llwyr ar wirfoddolwyr. Felly gweddiwch y byd modd trefnu'r gwaith yn iawn, ac y ceir digon o wirfoddolwyr ar gyfer y gwaith.

### *Salm 27*

Yr ARGLWYDD yw fy ngoleuni a'm gwaredigaeth, rhag pwy yr ofnaf?
Yr ARGLWYDD yw cadernid fy mywyd, rhag pwy y dychrynaf?
Pan fydd rhai drwg yn cau amdanaf i'm hysu i'r byw, hwy, fy ngwrthwynebwyr a'm gelynion, fydd yn baglu ac yn syrthio.
Pe bai byddin yn gwersyllu i'm herbyn, nid ofnai fy nghalon; pe dôi rhyfel ar fy ngwarthaf, eto, fe fyddwn yn hyderus.
Un peth a ofynnais gan yr ARGLWYDD, dyma'r wyf yn ei geisio:
cael byw yn nhŷ'r ARGLWYDD holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar hawddgarwch yr ARGLWYDD ac i ymofyn yn ei deml.
Oherwydd fe'm ceidw yn ei gysgod yn nydd adfyd, a'm cuddio i mewn yn ei babell, a'm codi ar graig.
Ac yn awr, fe gyfyd fy mhen goruwch fy ngelynion o'm hamgylch; ac offrymaf finnau yn ei deml aberthau llawn gorfoledd; canaf, canmolaf yr ARGLWYDD.
Gwrando arnaf, ARGLWYDD, pan lefaf; bydd drugarog wrthyf, ac ateb fi.
Dywedodd fy nghalon amdanat, "Ceisia ei wyneb"; am hynny ceisiaf dy wyneb, O ARGLWYDD.
Paid â chuddio dy wyneb oddi wrthyf, na throi ymaith dy was mewn dicter, oherwydd buost yn gymorth i mi; paid â'm gwrthod na'm gadael, O Dduw, fy Ngwaredwr.
Pe bai fy nhad a'm mam yn cefnu arnaf, byddai'r ARGLWYDD yn fy nerbyn.
Dysg i mi dy ffordd, O ARGLWYDD, arwain fi ar hyd llwybr union, oherwydd fy ngwrthwynebwyr.
Paid â'm gadael i fympwy fy ngelynion, oherwydd cododd yn f'erbyn dystion celwyddog sy'n bygwth trais.
Yr wyf yn sicr y caf weld daioni'r ARGLWYDD yn nhir y rhai byw.
Disgwyl wrth yr ARGLWYDD, bydd gryf a gwrol dy galon a disgwyl wrth yr ARGLWYDD.